



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

24 MAWRTH 2021

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo'r diweddariad i'r:

- **Polisi Cyfathrebu**

RHESYMAU:

Cymeradwyodd y CBLI y Cynllun Cyfathrebu presennol ym mis Rhagfyr 2019. Cafwyd gweithdy cyfathrebu ar ôl cyfarfod y CBLI ym mis Rhagfyr 2020 i gynnal yr adolygiad blynyddol ar y ddogfen hon, ac mae angen i'r CBLI gymeradwyo'r newidiadau iddi.

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn: 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

24 MAWRTH 2021

ADOLYGIADAU POLISI BLYNYDDOL

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo sawl polisi / cynllun dros y 18 mis diwethaf a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019 fe gymeradwyodd y CBLI y Cynllun Cyfathrebu, sy'n egluro sut bydd PPC yn ymgymryd â'i strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae'r cynllun yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â'r Bartneriaeth:

- Cynulleidfa Darged
- Negeseuon Allweddol / Prif Ddiben
- Dull Cyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Y Broses Adolygu a Myfyrio

Ym mis Rhagfyr 2020 fe gynhaliodd Hymans weithdy cyfathrebu, a mynychodd aelodau'r Cydbwyllgor a swyddogion o'r Gweithgor Swyddogion y gweithdy hwn. Roedd y gweithdy cyfathrebu wedi adnabod 'negeseuon allweddol' yr oedd PPC yn dymuno'u cyfleu i gynulleidfaoedd allanol. Felly, mae'r Polisi Cyfathrebu wedi'i ddiweddarau i gynnwys dwy 'neges allweddol' ychwanegol;

- Natur Arloesol a Flaengar y Bartneriaeth
- Maint y Pŵl

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Polisi Cyfathrebu ar ôl ei ddiwygio yn cael ei ddiweddarau ar wefan PPC.

ADRODDIAD MANWL
YNGHLWM?

IOES

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Polisi Mae'r Polisi Cyfathrebu yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN